# Ffeithlen Coetiroedd

**Bwriad y ffeithlen hon yw darparu'r wybodaeth gefndirol angenrheidiol i athrawon ddefnyddio'r cynlluniau gwersi a'r taflenni gwaith yn hyderus. Ymhlith nifer o wefannau eraill a allai fod yn ddefnyddiol mae Wicipedia, ARKive, BBC Nature, Naturenet, RSPB a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt.**

## Nadroedd cantroed

Mae nadroedd cantroed a miltroed bron i gyd yn greaduriaid hirfain gyda sawl segment corff a choesau niferus. Ar un tro fe'u dosberthid yn un grŵp unigol o'r enw y Myriapoda. Ystyr yr enw hwn yw 'llawer o draed' ac roedd yn addas iawn i'r anifeiliaid hyn. Mae'n derm eithaf defnyddiol o hyd er y sylweddolir erbyn hyn nad oes perthynas agos rhwng nadroedd cantroed a nadroedd miltroed a chânt eu dosbarthu ar wahân bellach.

Mae nadroedd cantroed i gyd yn anifeiliaid eithaf main, ychydig neu lawer o weithiau'n hirach na'u lled. Mae'r rhywogaeth Brydeinig yn amrywio o 5mm i oddeutu 70mm o hyd ac mae eu lliwiau'n amrywio o felyn golau i frown dwfn. Mae nadroedd cantroed wedi'u gorchuddio gan gôt allanol wydn. Nid oes haen dwrglos ganddynt ac fe'u cyfyngir i ardaloedd llaith pan fo perygl o sychu. Mae llawer yn byw yn y pridd a phentyrrau o ddail marw, tra bod y rhai sy'n hela'n rhydd ar y ddaear yn gwneud hynny gyda'r nos yn unig, gan dreulio'r dydd yn cuddio o dan foncyffion a cherrig lle gallant gadw'n llaith. Fel moch y coed, maent yn ymateb yn gryf i gyffyrddiad ac nid ydynt fel arfer yn dod i orffwys nes bod rhannau uchaf ac isaf eu cyrff mewn cysylltiad yr un tro â'r lle o'u hamgylch. Mae ymddygiad o'r fath yn sicrhau bod yr anifeiliaid yn llochesu o dan gerrig neu risgl, lle gellir sicrhau lleithder.

Er gwaethaf yr enw, nid oes 100 troed gan nadroedd cantroed: mae gan oedolion iach rhwng 30 a 202 - pâr o goesau i bob segment o'u cyrff. Ar y llaw arall, mae gan nadroedd miltroed ddau bâr o goesau i bob segment corff.

Mae'r neidr gantroed yn cael trafferth wrth reoli cynifer o goesau wrth symud o gwmpas, ond caiff y broblem ei lliniaru mewn sawl rhywogaeth oherwydd bod pob coes ychydig yn hwy na'r un o'i blaen. Gyda'r trefniant hwn, mae'r neidr gantroed yn llai tebygol o faglu dros ei thraed ei hun. Mae'r pâr olaf o goesau bob amser ychydig yn wahanol o'r lleill ac fel arfer yn dilyn y tu ôl i'r corff. Mae gan y coesau

hyn lwyth o wrych synhwyro ac maent yn gweithredu fel pâr ychwanegol o deimlyddion. Mae hyn yn nodwedd ddefnyddiol iawn i anifeiliaid y mae eu rhannau ôl peth ffordd oddi wrth y pen ac sydd yn aml yn gorfod symud o'r tu ôl i fynd allan o agennau.

Creadur ysglyfaethus yw'r neidr gantroed yn y bôn, er bod un o'n rhywogaethau gardd yn cnoi o bryd i'w gilydd ar wreiddiau. Maent yn defnyddio eu cyflymder i hela a dal amrywiaeth o greaduriaid eraill gan gynnwys moch y coed, medelwyr, corynnod, gwiddon, cynffonnau sbonc, chwilod a llawer o bryfed eraill. Maent hefyd yn bwyta mwydod a gwlithod.

Mae cyflymder a chrafangau gwenwynig y neidr gantroed yn amddiffyniad effeithiol yn erbyn y rhan fwyaf o'i gelynion, ac ychydig iawn sy'n hysbys am yr anifeiliaid sy'n gallu bwyta nadroedd cantroed. Mae adar, gan gynnwys ieir domestig, yn bwyta nadroedd cantroed pan gallant eu dal, fel y gwna chwistlod a llyffantod du. Mae chwilod y llawr, corynnod a medelwyr fwy na thebyg yn cymryd cryn nifer o nadroedd cantroed pan maent yn ifanc, ond ysglyfaethwyr pwysicaf nadroedd cantroed yw nadroedd cantroed eraill. Mae unigolion wedi'u hanafu'n cael eu dal yn ddi-oed mewn caethiwed, ac mae eu tueddiadau canibalistaidd yn sicrhau mai prin y deuir o hyd i fwy nag un neidr gantroed o dan unrhyw un garreg.

## Gwlithod

Mae gwlithod a malwod yn folysgiaid. Caiff y ddau eu dosbarthu'n foldroediadau (gan gyfeirio at y ffordd maent yn symud); yn y bôn, malwod heb gregyn neu â chregyn llawer llai yw gwlithod. Oherwydd diffyg cragen, mae gwlithod mewn perygl mwy gan ysglyfaethwyr a sychu. Mae eu llysnafedd yn datrys problem sychder i ryw raddau. Yn ystod tywydd oer iawn a sych, byddant yn turio i'r ddaear mewn ymgais i gadw lleithder. Mae rhai rhywogaethau o wlithod yn gaeafgysgu dan ddaear yn ystod y gaeaf mewn hinsoddau tymherol, ond mewn rhywogaethau eraill, mae'r oedolion yn marw yn yr hydref.

Mae gan wlithod ddau bâr o dentaclau ar eu pennau; mae'r pâr uchaf yn sensitif i olau (y 'llygaid'), tra bod y pâr isaf yn ymateb i arogl. Mae'r ddau bâr yn gallu cael eu tynnu'n ôl, a'u haildyfu os cânt eu colli.

Fel gyda malwod eraill, mae gwlithod yn symud trwy donnau rhythmaidd o gyfangiadau cyhyrol ar ochr isaf ei throed. Ar yr un pryd maent yn cynhyrchu haen llysnafedd y maent yn teithio ar ei hyd, sy'n helpu i atal difrod i feinweoedd y traed. Mae eu llysnafedd hefyd yn helpu i atal ysglyfaethwyr oherwydd ei flas annymunol.

Pan fo gwlithen wedi dod o hyd i gymar (weithiau trwy ddilyn y 'llwybr llysnafedd'), byddant yn amgylchynu ei gilydd a chyfnewid sberm trwy'u genitalia maent yn eu gwthio allan. Ychydig o ddyddiau'n ddiweddarach, caiff tua 30 ŵy eu dodwy mewn twll yn y ddaear, neu o dan bethau megis boncyff wedi cwympo.

Mae'r rhan fwyaf yn bwyta ar wyneb y ddaear ac yn tueddu i ddod allan gyda'r nos neu ar ôl glaw. Fel malwod, mae gwlithod yn bwyta trwy ddefnyddio'u radwlâu - organ arw sy'n debyg i dafod sydd wedi'i orchuddio â mân ddannedd. Mae llawer o rywogaethau o wlithod yn rhan hanfodol ecosystemau gan eu bod yn bwyta dail marw, ffyngau a deunydd llysieuol sy'n pydru. Mae rhywogaethau eraill yn bwyta rhannau o blanhigion byw sy'n esbonio eu henw drwg ymhlith garddwyr. Mae rhai gwlithod yn ysglyfaethwyr, gan fwyta gwlithod eraill, malwod a mwydod. Bydd y rhan fwyaf o wlithod hefyd yn bwydo ar furgynnod, gan gynnwys gwlithod marw eraill. Yn eu tro, maen nhw'n cael eu bwyta gan sawl gwahanol ysglyfaethwr: brogaod, llyffantod, nadroedd, draenogiaid, madfallod, rhai adar a chwilod, a phobl.

## Nadroedd defaid

Lladin: *Anguis fragilis*

Madfall heb goesau yw'r neidr ddefaid sy'n cael ei chamgymryd yn aml am neidr. Maent yn tyfu 40cm ac yn frown neu'n llwyd. Mae'r cennau'n fach ac yn llyfn sy'n rhoi gwedd metelig neu gaboledig i neidr ddefaid. Mae gan y fenyw a'r rhai ifanc ochrau du neu dywyll a llinell ddu denau ar hyd y cefn. Mae gan y gwryw mewn oed liw cefndirol brown/llwyd llai llachar ac fel arfer maent heb y marciau tywyllach. Mae gan rai gwrywod ychydig o smotiau glas sy'n gallu bod yn eithaf amlwg.

Mae'r neidr ddefaid yn eithaf cyffredin ledled Prydain ac mae i'w gweld mewn amrywiaeth o gynefinoedd, yn enwedig glaswelltiroedd a rhostiroedd. O'n holl ymlusgiaid brodorol, mae'r rhain yn fwyaf tebygol o gael eu gweld mewn gerddi a rhandiroedd. Er y gellir eu gweld yn symud o gwmpas ar ddiwrnodau mwyn, yn enwedig ar ôl glaw, mae nadroedd defaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser dan ddaear neu o dan wrthrychau sy'n gorwedd o gwmpas yr ardd.

Mae nadroedd defaid yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yng ngwreiddiau planhigion a'r pridd o'u cwmpas yn hela mwydod a chreaduriaid di-asgwrn-cefn eraill sy'n byw yn y pridd. Mae'r wlithen fach wen sy'n achosi cymaint o ddifrod mewn gerddi llysiau'n ffefryn bwyd arall. Mae'r croen, er ei fod wedi ffurfio o gennau, yn anhygoel o lyfn ac yn gallu amrywio o ran lliw o lwyd golau i arlliwiau copr hardd. O dro i dro mae'n bosib gweld sbesimenau cwbl ddu er eu bod yn brin dros ben. Mae gwryw y neidr ddefaid yn tueddu i fod yn unlliw tra mai tuedd y fenyw yw meddu ar ochrau tywyllach ac un neu fwy o resi ar hyd rhan uchaf gyfan ei chorff. Fel y fadfall gyffredin, gall y neidr ddefaid fwrw ei chynffon os bo angen ac nid yw'n dodwy wyau. Mae ifainc y neidr ddefaid yn ymddangos ychydig yn ddiweddarach yn y flwyddyn na rhai y fadfall gyffredin ac maent yn greaduriaid bach trawiadol eu gwedd. Mae'r corff uchaf yn amrywio o ran lliw o aur llachar i arian neu gopr gyda rhesen amlwg yn ymestyn ar hyd y cefn. Mae'r ochrau a'r bol yn ddu. Mae tomenni compost yn un o hoff gynefinoedd y neidr ddefaid gan eu bod yn darparu gwres ac ysglyfaeth.

## Chwilen y dom

Lladin: *Geotrupes stercorarius*

Mae chwilen y dom (a elwir hefyd yn chwilen y baw) yn un o'r chwilod mwyaf yn y DU. Mae enw chwilod y dom yn deillio o'u harfer braidd yn annymunol o fwyta dom. Mae'r larfâu a'r oedolion fel ei gilydd yn bwyta eu pwysau eu hunain o dom bob dydd. Er bod hyn yn ein taro fel dewis rhyfedd o ddeiet, nid oes fawr o gystadlu amdano, ac maent yn cyflawni rôl hanfodol o lanhau ardaloedd gwledig. Mae dom anifeiliaid yn llawn maethynnau, ac mae chwilod y dom yn cyflawni rôl hollbwysig wrth ddychwelyd llawer o'r deunydd i'r pridd. Maent i'w gweld ble bynnag y ceir llysysyddion mawr gan bod y rhain yn cynhyrchu'r dom mae'r chwilod yn dibynnu arni. Gellir eu gweld hefyd mewn parciau, gerddi a choetir agored.

Fel arfer maent tua 1.5-2cm o hyd, yn hirgrwn o ran siâp, ac yn ddu ac yn sgleiniog o ran lliw. Mae gan bob un goesau blaen mawr a phigog, sydd wedi'u haddasu'n bwrpasol i gloddio. Ar eu pennau bach mae teimlyddion byr â blaenau tebyg i wyntyllau.

Biswail gwartheg, tail ceffylau, baw cadnoid: nid oes unrhyw beth yn cael ei wastraffu, er bod dom anifeiliaid penodol yn well o lawer gan rai ohonynt - mae chwilod y dom yn hoff iawn o fiswail.

Yna, os nad yw bwyta dom yn ddigon gwael, maent yn storio cyflenwad at ddefnydd yn y dyfodol mewn twneli bas, ac yn neilltuo darpariaeth ar gyfer rhai bychan chwilod y dom newydd ddeor mewn siambrau nyth dan ddaear wedi'u hadeiladu'n bwrpasol sy'n ymestyn o dwnnel fertigol weithiau hyd at 50 cm (24 modfedd) o ddyfnder. Mae pob ŵy yn cael ei ddodwy mewn siambr ar wahân gyda'i gyflenwad dom ei hun.

Roedd y chwilod hyn yn cael eu hystyried yn sanctaidd gan yr hen Eifftiaid.

Y bygythiad mwyaf i'r chwilod hyn yw'r defnydd o driniaeth ddilyngyru ar gyfer anifeiliaid sy'n pori. Defnyddir y cemegyn i gael gwared ar lyngyr ym mherfeddyn yr anifail ond mae'n aros yn eu dom ar ôl iddynt ollwng ar y ddaear. Yna mae'r cemegyn yn effeithio ar larfâu chwilod y dom ac yn eu lladd.

Er nad yw'n rhywogaeth sy'n peri pryder i gadwraethwyr, mae chwilen y dom yn ffynhonnell fwyd ar gyfer yr ystlum pedol mwyaf - rhywogaeth sydd wedi bod yn dirywio ers sawl blynedd.

## Pathew

Lladin: *Muscardinus avellanarius*

Y pathew cyffredin neu'r bathor yw'r unig rywogaeth o bathewod sy'n frodorol i Ynysoedd Prydain. Mae'r pathew tew (Lladin: *Glis glis*) wedi cael ei gyflwyno'n ddamweiniol ac wedi sefydlu poblogaeth erbyn hyn ger Luton, yn nwyrain Lloegr.

Cnofilod bach yw pathewod, gyda chyrff sy'n mesur tua 7 cm o hyd a chynffon o oddeutu 6 neu 7 cm. Fel arfer mae pathewod yn pwyso tua 18g, er bod hyn yn cynyddu i 30-40g cyn gaeafgysgu o fis Hydref tan fis Ebrill. Mae ganddynt ffwr euraid, llygaid du a chynffon flewog. A hwythau'n greaduriaid nosol, mae pathewod yn anfodlon dod allan o ganghennau'r isdyfiant ac felly prin y cânt eu gweld.

Mae pathewod yn gaeafgysgu mewn nythod o dan bentwr o ddail dros y gaeaf. Ar ôl deffro yn y gwanwyn, maent yn adeiladu nythod plethedig o risgl gwyddfid wedi'i larpio, dail a gweiriau yn yr isdyfiant. Os bydd y tywydd yn oer ac yn wlyb ac mae bwyd yn brin, maent yn arbed egni trwy fynd i gyflwr swrth (math o aeafgysgu dros dro). Mae pathewod felly'n treulio llawer o'u hamser yn cysgu.

Cynefin pennaf pathewod yw coedlannau ag amrywiaeth eang o rywogaethau coed a llwyni, er eu bod i'w gweld weithiau mewn gwrychoedd a phlanhigfeydd conifferaidd. Maent yn addasu eu deiet yn ôl pa fwyd sydd ar gael. Mae blodau, ffrwythau a phryfed (yn enwedig llyslau a lindys) yn sail eu deiet. Maent yn fwyaf tebygol o ddibynnu ar neithdar a phaill blodau yn y gwanwyn a'r haf, yna pryfed wrth i'r tymor blodeuo ddod i ben, gan droi at gnau ac aeron yn yr hydref.

Maent yn esgor ar eu rhai ifanc tua chanol mis Mehefin. Mae eu torllwythau'n tueddu i fod yn fach; caiff 4-5 eu geni'n ddall ac maent yn hollol ddibynnol ar yr oedolion. Mae'r rhai bychan yn agor eu llygaid ar ôl rhyw 18 diwrnod, a byddant yn aros gyda'r fenyw am ryw 6-8 wythnos.

Roedd pathewod yn arfer bod yn weddol gyffredin. Fodd bynnag, erbyn heddiw, prin cânt eu gweld ac mae'n debyg eu bod wedi'u cyfyngu gan mwyaf i dde Lloegr. Mae poblogaethau ar

wasgar trwy Gymru a gogledd-ddwyrain Lloegr ond maent wedi diflannu'n llwyr o'r Alban. Yn lleol, mae'r unig rai rydym yn gwybod amdanynt yn byw ar y ffin rhwng Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, gyda rhai poblogaethau digyswllt yng Ngŵyr, Rhondda Cynon Taf a Sir Gâr. Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys cynefinoedd addas i bathewod ond mae angen archwilio ymhellach er mwyn canfod a ydynt yn bresennol ai peidio.

Rhaid i ymdrechion i ddiogelu'r rhywogaeth ganolbwyntio ar reoli coetiroedd er mwyn creu'r amrywiaeth o amodau sy'n angenrheidiol i gynnal y rhywogaeth hon. Mae amrywiaeth o rywogaethau coed a llwyni, ynghyd ag adeiladwaith cymhleth, yn hanfodol. Mae gwrychoedd sy'n cysylltu coetiroedd yn hwyluso symudiad ymhlith y boblogaeth, gan arwain at sefydlu poblogaethau newydd a galluogi bridio rhwng poblogaethau.

## Coch y Berllan

Llandin: *Pyrrhula pyrrhula*
Aderyn bach y coetir yw Coch y Berllan. Mae gan y gwryw fron binc-goch lachar, cap a chynffon du, a phen ôl gwyn llachar. Mae'r fenyw yn debyg ond gyda bron mwy llwydaidd.

Mae coch y berllan i'w weld mewn amrywiaeth o gynefinoedd ar gyrion coetiroedd a thir prysg. Caiff gysylltu'n aml â gwrychoedd a llwyni gardd sydd wedi tyfu'n wyllt ac yn ddryslyd. Caiff nythod eu hadeiladu mewn gwrychoedd trwchus o fân frigau, mwsogl a chennau. Caiff 4-5 ŵy golau â smotiau glas ym mis Mai. Mae'r fenyw yn eistedd ar yr wyau am 12-14 diwrnod nes eu bod yn deor, yna bydd y ddau riant yn bwydo'r cywion. 12 i 16 diwrnod yn ddiweddarach mae'r cywion yn magu plu. Caiff ail nythaid ei chynhyrchu fel arfer.

Maent yn bwyta amrywiaeth o ffrwythau a hadau gwyllt, ac egin coed amrywiol yn y gwanwyn. Gall coch y berllan unigol dynnu hyd at 30 egin y funud. Ar un adeg roedd pobl yn ystyried bod coch y berllan yn 'bla' cnydau ffrwythau. Bu cynnydd aruthrol yn niferoedd coch y berllan yn y 1950au ac roeddent yn broblem fawr i'r diwydiant tyfu ffrwythau. Cafodd llawer o adar coch y berllan eu dal gan ffermwyr ffrwythau yn ystod y cyfnod hwn.

Ar y rhestr pryderon cadwraeth uchel ym Mhrydain, mae coch y berllan wedi dioddef dirywiad sydyn yn eu niferoedd bridio'n ddiweddar. Ble ceir cynefinoedd addas ar iseldir Cymru, gellir dod o draws nifer cymharol uchel o adar coch y berllan. Fodd bynnag, mae llawer o goedlannau Cymru bron heb unrhyw isdyfiant dryslyd y mae coch y berllan yn ei hoffi fwyaf. Caniatáu i ddefaid bori yn y coedlannau sydd ar fai am hyn, ond mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal (sy'n rhoi manteision ariannol i ffermwyr sy'n cyflwyno arferion a gwelliannau ar eu tir syn ystyriol o'r bywyd gwyllt) wedi gwella'r sefyllfa rhwyfaint. O ganlyniad i'r dirywiad diweddar, mae coch y berllan ar y Rhestr Goch. Mae hefyd yn destun Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ac wedi'i gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Castell-nedd Port Talbot.